**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 23 Ionawr 2019 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A Pugh (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | D W Helliwell | L R Jones |
| H M Morris | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Lyndsay Thomas | Swyddog Trwyddedu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P Downing, B Hopkins a/ac Y V Jardine

---

**44 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**45 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2018 fel cofnod cywir.

**46 Cyflwyniad - Y Diweddaraf ar Ddinas Hawliau Dynol (DHD).**

Rhoddodd Dr Simon Hoffman, Athro Cyswllt, Prifysgol Abertawe, gyflwyniad ar y diweddaraf am statws Dinas Hawliau Dynol.

Rhoddodd gefndir y gwaith yr oedd wedi'i gyflawni a phwysleisiodd yr angen i gael canlyniadau gweladwy ac amcanion tymor hir. Ychwanegodd fod y gwaith yn ymwneud yn bennaf â hawliau cymdeithasol mewn cyd-destun Cymreig a bu'n ymwneud â chynnwys a chyfranogiad.

Cyfeiriodd at y gwaith yr oedd wedi'i wneud ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, yn enwedig sefydlu Grŵp Llywio a Chynllun Cyflawni. Canolbwyntiodd ar gynnwys y Datganiad o Fwriad a'r Cynllun Cyflawni a dywedodd y byddai'n hapus i roi diweddariad i gyfarfod yn y dyfodol.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau ynghylch y cyflwyniad, ac ymatebwyd iddynt yn briodol. Roedd y trafodaethau'n ymwneud â'r canlynol: -

- Amserlen Abertawe i ddod yn Ddinas Hawliau Dynol;
- Y gallu oedd ei angen i Abertawe ddod yn Ddinas Hawliau Dynol;
- Sut i ddatblygu materion drwy'r cyngor, y BGC a grwpiau dan anfantais;
- Cysylltu â materion/grwpiau cydraddoldeb;
- Enghreifftiau o ddinasoedd eraill, e.e. Efrog;
- Yr angen i statws Dinas Hawliau Dynol weithio i bawb.

Diolchodd y Cadeirydd i Dr Simon Hoffman am ddarparu'r cyflwyniad.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad;
2) Gwahodd Dr Simon Hoffman i ddarparu diweddariad pellach yng nghyfarfod y pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 27 Mawrth 2019.

## 47 Ymatebion Cadarnhaol i Egwyddorion Diwygio Lles. (Trafodaeth)

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cyflwyniad a ddarparwyd gan Rachel Moxey yn y cyfarfod blaenorol ynghylch Ymatebion Cadarnhaol i Egwyddorion Diwygio Lles. Cyfeiriodd at y canlynol a oedd yn rhan o'r cyflwyniad a dywedodd fod ymwybyddiaeth gan gynghorwyr a'r cyhoedd yn bwysig: -

- Polisi defnydd data mewnol.
- Cefnogaeth ariannol - y rhai y mae angen iddynt leihau dyledion rhent, gan leihau'r posibilrwydd o droi allan (Tai Coastal ac Abertawe).
- Clustnodi aelwydydd lle na fyddai'r trydydd plentyn/plant dilynol yn derbyn Credydau Treth Plant bellach.
- Clustnodi'r teuluoedd sydd mewn perygl.
- Cynghorwyr yn nodi pobl yn eu ward y gallent eu helpu.

Mynegodd y pwyllgor bryder bod y Pennaeth Tlodi a'i Atal yn gadael yr awdurdod yn fuan a gofynnodd am eglurder ynghylch dyfodol y swydd.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys y trafodaethau;
2) Y bydd y Cadeirydd, ar ran y pwyllgor, yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet i geisio eglurder ynghylch swydd Pennaeth Tlodi a'i Atal.

## 48 Cynllun Gwaith 2018-2019.

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2018-2019.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Gofal Plant Estynedig - derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd.

- Abertawe'n Gweithio a'r Fargen Ddinesig – rhoi’r cyflwyniad ar y cyd yng nghyfarfod mis Chwefror.
- Y Diweddaraf am statws Dinas Hawliau Dynol - Dr Simon Hoffman yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i gyfarfod mis Mawrth.
- Benthyca Llog Uchel - Penderfynu faint mae'r cyhoeddusrwydd ychwanegol wedi gweithio.
- Cynllun Rhoi'n Gall - Llythyr drafft i'w ddosbarthu i'r pwyllgor ar gyfer sylwadau/cytundeb.

**Penderfynwyd:** -

1) Dylid nodi cynnwys yr adroddiad;
2) Y bydd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn penderfynu pwy fydd yn mynd i'r cyfarfod nesaf i roi diweddariad ynghylch Gofal Plant Estynedig;
3) Rhoi’r cyflwyniad ynghylch Abertawe'n Gweithio a'r Fargen Ddinesig yng nghyfarfod mis Chwefror;
4) Y bydd Dr Simon Hoffman yn darparu'r diweddaraf am statws Dinas Hawliau Dynol yng nghyfarfod mis Mawrth;
5) Dosbarthu llythyr drafft y Cynllun Rhoi'n Gall i'r pwyllgor am sylwadau/gytundeb.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.00 pm

**Cadeirydd**